

Ailffurfio esgyrn yr wyneb gan ddefnyddio mewnbaniadau titanium a grëwyd yn arbennig a'u gorchuddio â meinwe meddal

*Mae arweiniad
Techlechyd NICE
yn rhoi cyngor i'r
GIG ynghylch pryd
a sut y gellir
defnyddio
triniaethau newydd
mewn arfer clinigol.*

Mae'r ddogfen hon yn ymwneud â phryd a sut y gellir defnyddio mewnbaniadau titanium a grëwyd yn arbennig a'u gorchuddio â meinwe meddal i ailffurfio esgyrn yr wyneb. Mae'n egluro'r canllawiau (cyngor) gan NICE (y Sefydliad Cenedlaethol dros lechyd a Rhagoriaeth Glinigol).

Mae'r arweiniad Techlechyd yn gwneud argymhellion ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio. Gall ymyriad olygu prawf, triniaeth neu lawdriniaeth sy'n cynnwys torri neu dyllu'r croen, neu endosgop i edrych y tu mewn i'r corff, neu ffynonellau ynni fel pelydrau-X, gwres neu uwchsain. Nid yw'r canllawiau'n cwmpasu p'un a ddylai'r GIG ariannu'r driniaeth ai peidio. Gwneir penderfyniadau ynghylch arian gan gyrff lleol y GIG (ymddiriedolaethau gofal sylfaenol ac ymddiriedolaethau ysbytai) ar ôl ystyried pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio a ph'un a yw'n cynnig gwerth am arian i'r GIG.

Lluniwyd y ddogfen hon i helpu pobl y cynigiwyd y driniaeth hon iddynt i benderfynu a ddylent gytuno (cydsynio) iddi ai peidio. Nid yw'n disgrifio'r broses o ailffurfio esgyrn yr wyneb gan ddefnyddio mewnbaniadau titanium yn fanwl - dylai aelod o'ch tîm gofal iechyd roi gwybodaeth lawn a chynghor i chi am hynny. Mae'r ddogfen yn cynnwys rhai cwestiynau y gallech fod am eu gofyn i'ch meddyg er mwyn eich helpu i wneud penderfyniad. Ceir rhai ffynonellau gwybodaeth a chymorth pellach ar dudalen 7.

Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Gellir defnyddio mewnbaniadau titaniwm a grëwyd yn arbennig fel mater o drefn i ailffurfio esgyrn yr wyneb, gan gynnwys ailffurfio gwaelod twll y llygad, lle caiff y mewnbaniadau eu gorchuddio â meinwe meddal (neu lle disgwylir i feinwe meddal dyfu drostynt), ar yr amod bod meddygon yn siŵr:

- bod y claf yn deall beth mae'n ei olygu a'i fod yn cytuno i gael y driniaeth, ac
- y caiff canlyniadau'r driniaeth eu monitro.

Efallai nad ailffurfio esgyrn yr wyneb gan ddefnyddio mewnbaniadau titaniwm a grëwyd yn arbennig yw'r unig driniaeth ailffurfio sydd ar gael.

Dylai eich tîm gofal iechyd siarad â chi ynghylch p'un a yw'n addas i chi ac unrhyw driniaethau eraill sydd ar gael.

Ailffurfio esgyrn yr wyneb gan ddefnyddio mewnbaniadau titaniwm a grëwyd yn arbennig a'u gorchuddio â meinwe meddal

Yr enw meddygol ar y weithdrefn hon yw gosod mewnbaniadau titaniwm a grëwyd yn arbennig, ynghyd â gorchudd meinwe meddal, at ddibenion ailffurfio orowynebol.

Ni chaiff y driniaeth ei disgrifio'n fanwl yma – siaradwch â'ch llawfeddyg i gael disgrifiad llawn.

Mae ailffurfio orowynebol yn driniaeth a ddefnyddir i ailffurfio'r wyneb pan fydd niwed difrifol i'r esgyrn. Mae angen y driniaeth hon fel arfer ar ôl anaf difrifol. Gall fod ei hangen hefyd ar ôl tynnu tiwmorau yn y wyneb, ac ar gyfer abnormaleddau wynebol sy'n bresennol adeg geni.

Gellir gwneud mewnbaniadau ar gyfer triniaeth ailffurfio orowynebol allan o rannau o gorff y claf, silicon, titaniwm, hydrocsyapatit (mwyn sy'n debyg i asgwrn dynol), a chyfuniadau o ddeunyddiau gwahanol fel titaniwm wedi'i osod mewn plastig. Gellir hefyd dyfu asgwrn neu

ddeunydd tebyg mewn labordy i'w osod yn lle'r esgyrn sydd wedi'u niweidio neu sydd ar goll o'r wyneb.

Y nod wrth ddefnyddio mewnbhaniadau titaniwm yw sicrhau canlyniad cosmetig a gweithredol gwell na mewnbhaniadau traddodiadol. Gwneir union fodel o ysgerbwd y claf, neu ddelwedd gyfrifiadurol 3-dimensiwn. Yna caiff y mewnbhaniad titaniwm ei wneud gan ddefnyddio dulliau dylunio a gweithgynhyrchu cyfrifiadurol. Caiff y llawdriniaeth ei chynnal fel arfer gyda'r claf o dan anesthetig cyffredinol. Gosodir y mewnbhaniad i mewn i'r asgwrn cyfagos gan ddefnyddio sgriwiau titaniwm. Yna gorchuddir y mewnbhaniad â meinwe o'r ardal o gwmpas y wyneb neu feinwe o ran wahanol o gorff y claf. Mewn rhai achosion, gadewir mewnbhaniadau wedi'u hamlygu'n rhannol oherwydd disgwylir y bydd meinwe meddal yn tyfu drostynt maes o law.

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Mae NICE wedi dweud bod y driniaeth hon yn ddigon diogel a'i bod yn gweithio'n ddigon da i'w defnyddio yn y GIG. Os yw eich meddyg o'r farn bod ailffurfio esgyrn yr wyneb gan ddefnyddio mewnbaniadau titaniwm a grëwyd yn arbennig yn driniaeth addas i chi, dylai sicrhau eich bod yn deall y manteision a'r risgiau o hyd cyn gofyn i chi gytuno i'r driniaeth.

Efallai y byddwch am ofyn y cwestiynau isod

- Beth yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl?
- Beth yw'r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny'n berthnasol i mi? A allai'r driniaeth wneud i mi deimlo'n waeth?
- A oes triniaethau eraill ar gael?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw'r risgiau'n fach neu'n ddifrifol? Pa mor debygol ydynt?
- Pa ofal y bydd ei angen arnaf ar ôl y driniaeth?
- Beth sy'n digwydd os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth allai ddigwydd os na chaf y driniaeth?

*Gallech ddewis cael
y driniaeth hon, cael
triniaeth wahanol,
neu beidio â chael
triniaeth
o gwbl.*

Crynodeb o fanteision a risgiau posibl

Isod ceir disgrifiad bras o rai o'r manteision a'r risgiau a welwyd yn yr astudiaethau a ystyriwyd gan NICE. Edrychodd NICE ar 10 o astudiaethau o'r driniaeth hon.

Pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio?

Edrychodd dwy astudiaeth achos, o 64 a 29 o gleifion, ar safle'r llygad a siâp y mewnblianiad yn yr wyneb. O blith y 54 o gleifion yn yr astudiaethau hyn a gafodd fewnblianiadau titaniwm a grëwyd yn arbennig, nododd 20 fod eu llygad wedi dychwelyd i'w safle normal 14 mis ar ôl y driniaeth, a nododd 28 welliant yn safle'r llygad rhwng 1 a 14 mis ar ôl y driniaeth. O blith y 29 o gleifion a gafodd fewnblianiadau titaniwm safonol, nododd 23 welliannau i safle'r llygad. Nododd yr astudiaeth o 64 o gleifion fod siâp yr wyneb o amgylch y llygad wedi'i gywiro'n berffaith yn achos 23 o'r 25 o gleifion a gafodd fewnblianiadau titaniwm a grëwyd yn arbennig, o gymharu â 29 o'r 39 o gleifion a gafodd fewnblianiadau titaniwm safonol. Roedd angen llygad artiffisial ar ddau glaf a gafodd fewnblianiadau a grëwyd yn arbennig yn yr astudiaeth o 64 o gleifion, o gymharu ag wyth claf a gafodd fewnblianiadau safonol. Yn yr astudiaeth o 29 o gleifion, roedd y mewnblianiadau a grëwyd yn arbennig wedi symud llygaid tri chlaf yn rhy bell, gan olygu eu bod mewn safle anghywir gwahanol.

Nododd astudiaeth o 24 o gleifion, 12 mis ar ôl y driniaeth, fod gan y 12 claf a gafodd fewnblianiadau titaniwm a grëwyd yn arbennig olwg sylweddol well gan ddefnyddio'r ddau lygad gyda'i gilydd, bod eu llygaid mewn safle gwell yn yr wyneb, a'u bod yn gallu edrych i fyny'n haws, o gymharu â'r 12 claf a gafodd fewnblianiadau titaniwm safonol. Bedwar mis ar ddeg ar ôl y driniaeth yn yr astudiaeth o 29 o gleifion a gafodd fewnblianiadau titaniwm a grëwyd yn arbennig, nid oedd pedwar claf yn cael unrhyw anhawster wrth symud eu llygaid, roedd naw claf yn cael

llai o anhawster nag yr oeddent cyn y driniaeth, ac roedd 13 o gleifion yn cael yr un faint o anhawster.

Nododd yr astudiaeth o 29 o gleifion a gafodd fewnblaniadau titaniwm a grëwyd yn arbennig, 14 mis ar ôl y driniaeth, nad oedd gan bum claf olwg dwbl, fod gan naw claf lai o olwg dwbl, ac nad oedd 10 claf wedi gweld unrhyw newid o ran eu golwg dwbl.

Mewn astudiaeth o 22 o gleifion ag abnormaleddau o amgylch eu llygaid, nodwyd un claf oedd â golwg dwbl cyn y driniaeth yr oedd angen llawdriniaeth arno i'w helpu i symud ei lygaid ar ôl gosod y mewnblaniad.

Yn ogystal ag ystyried yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Dywedwyd mai nodau allweddol y driniaeth yw gosod y mewnblaniad fel ei fod yn gweithio'n dda ac yn para am gyfnod hir, ac i alluogi cleifion i ddychwelyd i'w bywydau arferol.

Risgiau a phroblemau posibl

Mewn astudiaeth o 20 o gleifion a gafodd y driniaeth ar gyfer diffygion yn rhan uchaf yr ên uchaf, dadorchuddiwyd y mewnblaniad yng ngheg un claf 26 mis ar ôl y driniaeth, ac yn nhwll llygad claf arall bedwar mis ar ôl y driniaeth. Bu'n rhaid i'r ddau glaf hyn gael rhagor o lawdriniaeth.

Nododd yr astudiaeth o 22 o gleifion a gafodd eu trin â mewnblaniadau titaniwm a grëwyd yn arbennig fod un claf yn gallu teimlo rhan o'r mewnblaniad a sgriw wrth ymyl ei llygad, ac roedd hyn yn achosi poen a chosi. Cafodd y claf driniaeth arall i drimio'r mewnblaniad a thynnu'r sgriw.

Yn y gyfres achos o 29 o gleifion, cafodd un claf haint yn yr ardal gerllaw'r mewnblaniad. Yn yr astudiaeth o 64 o gleifion, cafodd un claf

haint yn y ceudyllau bach wedi'u llenwi ag aer y tu mewn i asgwrn y boch. Gwellodd y claf ar ôl tynnu meinwe'r haint.

Nododd yr astudiaeth o 20 o gleifion a gafodd fewnblaniadau ar gyfer diffygion yn rhan uchaf yr ên uchaf fod dau glaf wedi cael pibellau orodrwynol (cysylltiadau annormal rhwng y trwyn a'r geg) wedi'u gosod flwyddyn ar ôl y driniaeth. Cafodd y rhain eu selio â dannedd gosod rhannol y gellir eu tynnu.

Yn yr astudiaeth o 22 o gleifion, gwaethygodd golwg un claf yn sydyn, ac ni allai weld o gwbl ar ôl wyth awr. Diflannodd y problemau hyn â'r golwg ar ôl wythnos unwaith y cafodd y mewnblaniad ei dynnu.

Nododd astudiaeth o 15 o gleifion a gafodd y driniaeth i ailffurfio twll y llygad fod gan un claf greithiau o fewn ei lygad, problemau wrth symud ei lygad a golwg dwbl. Gwellodd y golwg dwbl ar ôl triniaeth bellach. Effeithiwyd ar olwg claf arall yn yr un astudiaeth, wrth i'r mewnblaniad bwyso ar y nerf optig. Cafodd hyn ei unioni'n llwyr gan driniaeth arall.

Collodd un claf yn yr astudiaeth o 64 o gleifion y gallu i symud ei lygad yn normal. Cafodd driniaeth i unioni'r llygad croes a achoswyd gan hyn.

Yn ogystal ag ystyried yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Dywedwyd bod problemau posibl yn cynnwys asgwrn o amgylch y mewnblaniad yn cael ei dreulio gan y corff, y mewnblaniad yn rhyddhau, a cholli rhannau unigol o'r mewnblaniad o fewn y corff.

Rhagor o wybodaeth am ailffurfio esgyrn y wyneb

Gall NHS Choices (www.nhsdirect.wales.nhs.uk) fod yn lle da i gael gwybod mwy. I gael manylion am holl ganllawiau NICE ar ailffurfio esgyrn y wyneb, ewch i'n gwefan yn www.nice.org.uk

NICE

Mae NICE yn llunio canllawiau (cyngor) i'r GIG ar atal, canfod a thrin cyflyrau meddygol gwahanol. Ysgrifennir y canllawiau gan arbenigwyr annibynnol gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a phobl sy'n cynrychioli cleifion a gofalwyr. Maent yn ystyried pa mor dda y mae ymyriad yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw, ac yn holi barn cynghorwyr arbenigol. Mae arweiniad Techlechyd yn berthnasol i'r GIG cyfan yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Disgwylir i staff sy'n gweithio yn y GIG ddilyn y canllawiau hyn.

I gael rhagor o wybodaeth am NICE, ei waith a sut mae'n gwneud penderfyniadau, ewch i www.nice.org.uk/aboutguidance

Mae'r ddogfen hon yn ymwneud â 'Gosod mewnbaniadau titaniwm a grëwyd yn arbennig, ynghyd â gorchudd meinwe meddal, at ddibenion ailffurfio orowynebol'. Mae'r ddogfen hon a'r canllawiau llawn a anelir at weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gael yn www.nice.org.uk/guidance/HTG307

Rydym yn annog sefydliadau gwirfoddol, sefydliadau'r GIG a chlinigwyr i ddefnyddio testun o'r ddogfen hon yn eu gwybodaeth eu hunain am y driniaeth hon.

National Institute for Health and Clinical Excellence

Level 1A, Dinas Tower, Piccadilly Plaza, Manchester M1 4BT;

www.nice.org.uk

ISBN 978-1-4731-8820-4

N2912 March 2013

© National Institute for Health and Clinical Excellence. All rights reserved. This material may be freely reproduced for educational and not-for-profit purposes.

No reproduction by or for commercial organisations, or for commercial purposes, is allowed without the express written permission of NICE.